Cynllun
Grant Coetir

Cynllun Premiwm
Coetir Fferm

Gorffennaf 2003

arweiniad i'r

Cynllun Grant Coetir

sut i wneud cais am

grantiau ar coetiroedd newydd

a

grantiau ar coetiroedd sy'n bod

W·O·O·D·L·A·N·D GRANT SCHEME·

WGS

cynnwys

Adran 1 **Y Cynllun Grant Coetir - sut i wneud cais**

Cyflwyniad 3
Y Cynllun Premiwm Coetir Fferm (CPCFf) 3
Nodau'r Cynllun Grant Coetir 3
Beth mae'r Cynllun Grant Coetir yn ei gwmpasu 4
Llunio eich cais 4
Sut yr ydym yn ymdrin â'ch cais 6
Newid y contract 9
Talu'r grant 10
Ansawdd y gwasanaeth 11

Adran 2 **Grantiau ar gyfer coetiroedd newydd**

Pwrpas y grantiau 12
Aildyfiant naturiol 13
Grantiau eraill 13
Grantiau eraill ar gyfer plannu newydd 14
Gofynion ar gyfer grantiau ar gyfer coetiroedd newydd 15

Adran 3 **Grantiau ar gyfer coetiroedd sy'n bod**

Pwrpas y grantiau 17
Grantiau aildyfiant naturiol 17
Grant Rheoli Blynyddol 18
Grant Gwella Coetir 19

Adran 4 Llyfryddiaeth 21
Cyfeiriadau defnyddiol 22

Y Cynllun Grant Coetir
Sut i wneud cais

Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Grant Coetir (CGC) yn rhoi ysgogiadau i bobl i greu a rheoli coetiroedd ar safleoedd ar hyd a lled Prydain Fawr. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn talu grantiau i sefydlu a gofalu am goetiroedd a choedwigoedd oherwydd manteision cymdeithasol coetiroedd a reolir yn dda.

I fod yn gymwys i gael grant, rhaid i chi gwrdd â'r safonau diogelu'r amgylchedd a'r arferion amgylcheddol a amlinellir yn ein Canllawiau. Rhoddir y pwyntiau allweddol yn y llyfryn *Amgylchedd y Goedwig* ym *Mhecyn yr Ymgeisydd* hefyd.

Y Cynllun Premiwm Coetir Fferm (CPCFf)

Pwrpas y Cynllun Premiwm Coetir Fferm yw annog pobl i greu coetiroedd newydd ar ffermydd. Y nod yw gwella'r amgylchedd drwy blannu coetiroedd ar ffermydd sy'n gwella'r dirwedd, yn darparu cynefinoedd newydd ac yn cynyddu bioamrywiaeth. Pwrpas y taliadau blynyddol a wneir o dan y Cynllun hwn yw digolledu ffermwyr am y refeniw amaethyddol a gollir. Disgrifir rheolau'r cynllun hwn mewn llyfryn ar wahân.

Nodau'r Cynllun Grant Coetir

Nodau'r CGC yw:

- **annog pobl i greu coetiroedd a choedwigoedd newydd er mwyn**
  - **cynhyrchu rhagor o goed,**
  - **gwella'r dirwedd,**
  - **darparu cynefinoedd newydd ar gyfer bywyd gwyllt, a**
  - **chynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden a chwaraeon;**
- **annog rheolaeth dda mewn coedwigoedd a choetiroedd, gan gynnwys amseru aildyfiant ynddynt yn dda, gan ofalu yn arbennig am anghenion coetiroedd hynafol a lled-naturiol;**
- **darparu swyddi a gwella economi ardaloedd gwledig ac ardaloedd eraill lle nad oes llawer o gyfleoedd ar gyfer gweithgaredd economaidd; a**
- **darparu defnydd ar gyfer tir yn lle amaethyddiaeth.**

Beth mae'r Cynllun Grant Coetir yn ei gwmpasu

Telir grantiau i helpu creu coetiroedd newydd ac i hybu rheolaeth dda mewn coetiroedd sy'n bod.

Gall pob coetir a choedwig gael ei hystyried ar gyfer grantiau o dan y CGC. Ond ni fydd ardaloedd o goed sy'n rhy fach neu'n rhy gul i gael eu hystyried yn goetiroedd yn gymwys. Fel rheol byddai'n rhaid i'r coetir fod yn chwarter hectar o ran arwynebedd neu'n 15 metr o leiaf o led, ond gall coetiroedd llai fod yn gymwys os ydynt yn bodloni nodau'r cynllun.

Telir y grantiau fel rhan o gontract lle'r ydych chi'n cytuno i ofalu am y coetir a gwneud y gwaith a gymeradwywyd i'n boddhad rhesymol.

Gall eich cais i'r Cynllun Grant Coetir gynnwys cynigion i deneuo neu dorri coed yn y coetiroedd sy'n derbyn cymorth grant. Rhoddir gwybodaeth bellach am y cyfyngiadau a'r trefniadau mewn perthynas â thorri coed yn ein llyfryn *Torri Coed - Cael Caniatâd*. Gweler hefyd y paragraff ar *Gynigion i dorri coed* ar dudalen 6.

Cyllid gan y Comisiwn Ewropeaidd

Mae grantiau ar gyfer plannu newydd a rhai gweithgareddau rheoli yn gymwys ar gyfer cyd-ariannu gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Cyllid gan gyrff cyhoeddus eraill

Ni allwn dalu grant os yw corff cyhoeddus arall eisoes yn talu grant am yr un gwaith yn y coetir.

Llunio eich cais

Cyn paratoi eich cais gall fod angen i chi:

- **siarad â Swyddog Coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth;**
- **ceisio cymorth proffesiynol i baratoi eich cais a rheoli eich coetir. Rhoddir rhai cyfeiriadau defnyddiol ar dudalen 22.**

I'n galluogi i ystyried eich cynigion a'u hasesu'n briodol dylech anfon eich cais i ni O LEIAF 3 MIS cyn y dyddiad yr ydych chi am ddechrau'r gwaith, neu'n gynharach os oes modd.

Cymdogion

Byddem yn eich cynghori'n gryf i drafod eich cynigion, yn enwedig y rheiny ar gyfer plannu newydd a allai effeithio ar y dirwedd, cyflenwad d_r ac ati, gydag unrhyw gymdogion y gall eich cynigion effeithio ar eu heiddo. Dylech gofnodi unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael neu gytundebau y daethpwyd iddynt a chynnwys hyn gyda'ch cais.

Pwy all wneud cais

Gall perchenogion neu ddeiliaid prydles wneud cais. Os ydych yn ddeiliad prydles, neu'n denant, bydd angen i chi sicrhau bod y perchennog yn cytuno â'ch cynlluniau. Ni fydd landlordiaid sy'n adfeddiannu tir drwy gyfrwng Rhybudd i Ymadael sy'n cael ei ymladd yn gymwys ar gyfer grantiau CGC mewn perthynas â'r eiddo dan sylw.

Cewch ddefnyddio un cais ar gyfer sawl coetir neu eiddo os yw'r rhain yn perthyn i'r un person ac yn ddigon agos i gael eu rheoli gyda'i gilydd.

Mapiau

Mae'r map yn rhan hanfodol o'ch cais. Rhaid i'r holl ardaloedd yn eich cais gael eu dangos ar fap Arolwg Ordnans eglur a chyfoes ar raddfa o 1:10000. Ond ar gyfer ardaloedd bach neu fanwl iawn, dylech ddefnyddio map gyda graddfa o 1:2500. Darllenwch y *Nodiadau* i ddarganfod sut i farcio eich map.

Os ydych chi'n gwneud cais o dan y CPCFf bydd angen i chi farcio rhifau'r caeau ar y map. Gallwch roi map ar wahân i ni i ddangos y wybodaeth hon.

Cofiwch y gall fod gofyn i chi roi copïau ychwanegol o'r map i'r awdurdodau lleol a chyrff eraill yr ymgynghorwn ni â hwy ynghylch eich cais.

Bydd angen copi ychwanegol hefyd ar gyfer y contract dyblyg y mae'n rhaid i chi ei lofnodi.

Mapiau digidol

Byddwn ni'n derbyn copïau papur o fapiau digidol (wedi'u cynhyrchu o ddata a ddelir ac a atgynhyrchir gan gyfrifiadur). Gallwch gael taflen yn disgrifio'r gofynion gan eich swyddfa Warchodaeth leol.

Pa ffurflenni i'w llenwi

Yn ogystal â map, mae arnom angen y wybodaeth a geisir ar y ffurflen gais (CGC–CPCFf 1) a'r ffurflen gynnig (CGC–CPCFf 2). Bydd y *Nodiadau* yn eich helpu i lenwi'r ffurflenni hyn. Maent hwy i gyd ym *Mhecyn yr Ymgeisydd*.

Yn y ffurflen gais (CGC–CPCFf 1) gofynnwn i chi am wybodaeth amdanoch chi a'ch eiddo ac am ddisgrifiad o'ch nodau tymor-hir. Os ydych chi'n gwneud cais am y CPCFf hefyd, gofynnwn am wybodaeth am eich busnes fferm.

Yn y ffurflen gynnig (CGC–CPCFf 2) gofynnwn i chi fanylu ar y gwaith yr ydych chi'n bwriadu ei wneud yn ystod y pum mlynedd nesaf i gwrdd â'ch nodau. Dylech ddweud wrthym hefyd am unrhyw deneuo neu dorri arfaethedig yr ydych chi eisiau caniatâd ar ei gyfer.

Rhaid i chi lenwi'r ddwy ffurflen hyn.

Ffyrdd coedwig

Os ydych chi'n bwriadu adeiladu ffordd newydd, uwchraddio lôn yn sylweddol, neu newid llwybr ffordd sydd yn y coetir, dylai eich cais gynnwys gwybodaeth gryno am y cynllun a'r dull adeiladu a ddefnyddir.

Os ydych chi'n adeiladu ffyrdd coedwig yng Nghymru neu Loegr bydd angen i chi wneud cais i'ch awdurdod cynllunio lleol am ddyfarniad ynghylch a oes angen iddo gymeradwyo lleoliad y ffordd a'r dull o'i hadeiladu.

Gorchymyn Cadw Coed

Os yw'r cynnig yn effeithio ar Orchymyn Cadw Coed neu goed mewn Ardal Gadwraeth, **rhaid** i chi ddweud wrthym a rhoi'r manylion yn eich cais. Os oes angen trwydded torri coed arnoch i dorri coed a ddiogelir gan Orchymyn Cadw Coed, rhaid i chi wneud cais i ni. Cyn gwneud penderfyniad, byddwn yn trafod eich cais â'r awdurdod lleol.

Yng Nghymru a Lloegr, ni fydd trwydded torri coed yn cynnwys torri coed a gynhwysir mewn Gorchymyn Cadw Coed neu sydd mewn Ardal Gadwraeth os nad ydych wedi nodi bodolaeth y Gorchymyn neu Ardal yn y cais.

Ffurflenni electronig

Cewch ddefnyddio cyfrifiadur neu brosesydd geiriau i gynhyrchu eich cais, os dilynwch yr un fformat â'n ffurflenni, gan gynnwys y rhannau sydd at ein defnydd ni. Gallwch gael copi o'r ffurflenni cais ar ddisg. Cysylltwch â'ch swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol neu Grantiau a Thrwyddedau i gael rhagor o fanylion.

Ble i anfon eich cais

Y Comisiwn Coedwigaeth a fydd yn ymdrin â'ch cais o dan y CGC a'r CPCFf fel ei gilydd. Anfonwch eich cais i'ch swyddfa leol. Mae eu henwau a chyfeiriadau ar daflen ar wahân: *Cyfeiriadur Gwarchodaethau*.

Byddwch cystal â sylwi ein bod ni'n derbyn llawer o geisiadau ym mis Hydref a mis Tachwedd, sef dechrau'r tymor plannu. Os oes modd, anfonwch eich cais i ni mor gynnar â phosibl fel y gallwn ei brosesu'n gyflym.

Sut yr ydym yn ymdrin â'ch cais

Cydnabod derbyn eich cais

Pan dderbynnir eich cais gan y swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol, bydd yn ei gydnabod o fewn 3 diwrnod ac yn rhoi enwau'r staff a fydd yn ymdrin â'ch cais.

Ymweld â'r safle

Bydd ein Swyddog Coetiroedd yn ymweld â'r safle fel rheol i asesu eich cais ac a yw eich cynigion yn cwrdd â nodau'r Cynllun Grant Coetir. Os bwriadwn wneud ymweliad o'r fath, byddwn yn cysylltu â chi o fewn pythefnos. Byddem yn gwneud yr ymweliad fel rheol o fewn 4 wythnos ar ôl derbyn eich cais.

Nid oes angen i chi fod yno pan ymwelwn â'r safle, ond os ydych chi'n dymuno bod yn bresennol, byddwn yn ceisio trefnu amser sy'n gyfleus i chi.

Yna byddwn yn trafod unrhyw bwyntiau ynghylch eich cais sy'n aneglur, yn ceisio rhagor o wybodaeth os oes angen, neu'n cynnig cyngor, gyda'r nod o gytuno ar gynigion cadarn. Os nad yw eich cais yn cwrdd â'n canllawiau, ac os gall gael ei wrthod o'r herwydd, byddwn yn egluro pam ac yn dweud wrthych mor fuan â phosibl.

Asesiad amgylcheddol

Os ydych yn gweithio ar rai prosiectau coedwigaeth arbennig, gall fod gofyn i chi, o dan y Rheoliadau ar gyfer Asesiadau Effaith ar yr Amgylchedd (AEA), gysylltu â ni i benderfynu a fydd eich cynigion yn gofyn am Asesiad o'r fath. Os oes angen i ni gydsynio â'ch cynigion, mae'r Rheoliadau AEA (Rheoliad 10) yn gofyn i chi gyflwyno cais i ni at y pwrpas hwn. Nid oes angen i chi wneud cais ar wahân os ydych chi'n gwneud cais o dan y CGC. Bydd eich ffurflenni cais CGC yn cwrdd â'r gofyniad hwn. Mae prosiectau perthnasol yn cynnwys coedwigo cychwynnol, datgoedwigo (torri a chlirio coed i droi goetir yn ddefnydd tir arall), adeiladu ffyrdd coedwig neu chwareli. Gallwch ddarganfod rhagor yn ein llyfryn ar y drefn AEA.

Plannu newydd yn Lloegr

Ymdrinnir â cheisiadau am blannu newydd yn Lloegr yn ôl disgresiwn y Comisiwn Coedwigaeth. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y drefn hon yn Adran 2.

Cynigion i dorri coed

Os ydych yn dymuno torri coed o dan y CGC rhaid i chi gael Trwydded Torri Coed. Nid oes angen i chi wneud cais ar wahân - byddwn yn dweud wrthych

os oes angen trwydded arnoch i dorri'r coed ac os oes angen ailstocio. Byddwch yn cael eich Trwydded Torri Coed gyda'ch contract CGC a gymeradwywyd. Os oes angen i chi newid y manylion cyn dechrau torri, byddwn yn newid eich contract CGC ac yn rhoi Trwydded Torri Coed newydd i chi. *Byddwch cystal â sylwi bod yn rhaid i chi gydymffurfio â'r amodau ailstocio ar y Drwydded unwaith yr ydych wedi dechrau torri.*

Amddiffyn boncyffion

Os ydych chi'n torri conwydd gall fod angen i chi amddiffyn y boncyffion mewn ardaloedd lle mae perygl o haint. Gallwch gael cyngor ar amddiffyn boncyffion gan eich swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol neu gan Ymchwil Coedwigaeth.

Iechyd planhigion

O dan y ddeddfwriaeth Iechyd Planhigion, rhaid i unrhyw goed y bwriedir eu plannu sy'n cael eu cludo i dyfwyr proffesiynol gael pasbort planhigion sy'n cadarnhau eu bod yn iach. Dim ond tyfwr neu fasnachwr awdurdodedig (cofrestredig) a all roi basbortau planhigion. I gael manylion pellach, cysylltwch â'r Gwasanaeth Iechyd Planhigion, Comisiwn Coedwigaeth, 231 Corstorphine Road, Caeredin EH12 7AT neu ffoniwch 0131 334 0303.

Cyrraedd y cam "Cynigion Cadarn"

Cyrhaeddir y cam "Cynigion Cadarn" ar ôl cwblhau'r trafodaethau cychwynnol a phan ydym yn fodlon bod eich cais yn cwrdd â'n canllawiau ac o safon ddigon da i ni wneud penderfyniad arno.

Cofrestr o geisiadau ar gyfer plannu newydd a thorri coed Ymgynghori ar geisiadau

Os yw eich cais yn cynnwys cynigion ar gyfer creu coetiroedd newydd neu ar gyfer torri coed, bydd gwybodaeth amdano yn ymddangos ar y Gofrestr Gyhoeddus. Caiff copïau o'r Gofrestr eu dosbarthu'n eang drwy ffacs ac e-bost. Cewch hefyd gyrchu'r Gofrestr ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth yn: **www.forestry.gov.uk**. Mae hyn yn caniatáu i bobl edrych ar y cynigion a rhoi mwy o wybodaeth i ni neu gynnig sylwadau.

Cynhyrchir y Gofrestr bob dydd Llun ac mae'n cynnwys pob achos sydd wedi cyrraedd y cam "Cynigion Cadarn" yn ystod y 4 wythnos flaenorol. Rhoddwn 4 wythnos o'r dyddiad y cynhyrchir y Gofrestr i bobl wneud sylwadau ar unrhyw gais. Rhaid iddynt ysgrifennu at y Gwarchodwr, sef pennaeth y swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol, a fydd yn ystyried eu sylwadau ac yn gofyn i chi newid eich cynigion os oes angen er mwyn cymryd unrhyw faterion pwysig i ystyriaeth.

Mae'r Gofrestr yn manylu'n gryno ar hynt y cais a'r gwaith a fydd yn cael ei wneud.

Gall pobl sy'n edrych ar y Gofrestr ofyn am weld y map a'r ffurflenni cais a byddwn yn gwneud copi iddynt os gofynnant. Atgoffwn bobl fod y mwyafrif o geisiadau yn ymwneud â thir preifat a bod angen iddynt gael eich caniatâd os ydynt am fynd i'r ardal dan sylw.

Mae'r Gofrestr hefyd yn rhestru ceisiadau a gymeradwywyd fel y gall pobl ddarganfod beth sydd wedi digwydd.

Mae taflen ar gael sy'n egluro pwrpas y Gofrestr i'r cyhoedd. Gellir cael copïau gan eich swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol.

Ymgynghori ar geisiadau

Rydym wedi cytuno i ymgynghori ag awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill i gael eu barn am effaith gwahanol fathau o geisiadau. Byddwn yn cymryd eu barn i ystyriaeth cyn cymeradwyo eich cais. Os oes angen gwneud unrhyw newidiadau, byddwn yn eu trafod gyda chi.

Os anfonwn eich cais ar gyfer ymgynghori, cewch wybod pa gyrff y byddwn yn ymgynghori â hwy. Mae'r cyrff hyn wedi cytuno i ymateb o fewn 28 diwrnod. Ond os oes ganddynt sylwadau manwl i'w gwneud, mae'n bosibl y cânt ragor o amser i'w paratoi a chynnal unrhyw drafodaethau angenrheidiol.

Ymdrin â gwrthwynebiadau

Mewn ambell achos, ceir gwrthwynebiadau i gynigion plannu neu dorri coed na ellir eu datrys drwy drafodaethau lleol. Os bydd hyn yn digwydd, bydd ein staff yn egluro'r drefn sydd gennym ar gyfer ymdrin â'r fath sefyllfaoedd.

Ceisiadau CPCFf

Ar ôl i'ch cais gyrraedd y cam "Cynigion Cadarn", byddwn yn anfon manylion eich cais i'ch Gwasanaeth Datblygu Gwledig/swyddfa Adran Amaeth leol. Byddant yn prosesu eich cais tra bo'r manylion i'w gweld ar ein Cofrestr Gyhoeddus. Ar ôl cael eu cymeradwyaeth byddwn yn rhoi contract CGC drafft gyda chymeradwyaeth CPCFf.

Y Contract Drafft

Byddwn yn anfon dau gopi o'r contract drafft a'r map atoch. Rhaid i chi arwyddo'r dogfennau hyn a'u dychwelyd i'ch swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol mor fuan â phosibl.

Hefyd bydd gofyn i ymgeiswyr CPCFf lofnodi ffurflen Datganiadau ac Ymrwymiadau mewn perthynas â'r Cynllun hwnnw.

Pryd i ddisgwyl eich contract

Byddwn yn ceisio anfon y contract CGC (a'r Datganiadau ac Ymrwymiadau CPCFf os yn briodol) o fewn yr amser a nodir yn ein Siarter Dinesydd.

Cofiwch na allwn roi contractau ar gyfer ceisiadau sy'n cynnwys plannu newydd neu dorri hyd nes iddynt fod ar y Gofrestr Gyhoeddus am bedair wythnos.

Rhaid i chi lofnodi a dychwelyd eich contract CGC drafft (a'r Datganiadau ac Ymrwymiadau CPCFf os yn briodol) i ni **o fewn chwe mis ar ôl ei dderbyn** neu bydd yn rhaid i chi wneud cais newydd. **Rhaid i chi aros hyd nes i ni lofnodi a dychwelyd eich copi cyn dechrau ar y gwaith.**

Telerau ac Amodau

Cynhwysir copi o delerau ac amodau'r Cynllun Grant Coetir yn y *Nodiadau.* Bydd copi yn rhan o'ch contract hefyd. Mae'r rhain yn esbonio eich cyfrifoldebau o dan y cynllun a hefyd o dan ba amgylchiadau y gallwn derfynu eich contract. **Byddwch cystal â'u darllen yn ofalus.**

Cynllun Premiwm Coetir Fferm (CPCFf)

Mae llyfryn ar wahân ym *Mhecyn yr Ymgeisydd* sy'n disgrifio rheolau'r CPCFf.

Dechrau'r gwaith

Rhaid i chi beidio â dechrau gwaith ar unrhyw safleoedd a gymeradwywyd o dan y CGC yr ydych chi'n bwriadu ceisio grant amdanynt o dan y CPCFf hyd nes i chi dderbyn eich contract CGC a chymeradwyaeth CPCFf.

Os gwnewch unrhyw blannu neu waith paratoi cyn cael cymeradwyaeth, rhaid i'r Gwasanaeth Datblygu Gwledig/Adran Amaeth wrthod eich cais CPCFf ac ni allwn roi contract CGC/CPCFf.

Gwasanaeth Datblygu Gwledig/Adran Amaeth

Y rhain yw:

- **yn Lloegr, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Gwasanaeth Datblygu Gwledig (DEFRA);**
- **yng Nghymru, yr Adran Amaeth a Materion Gwledig (ARAD).**

Byddwn yn anfon eich manylion i'r Gwasanaeth Datblygu Gwledig/Adran Amaeth berthnasol. Ar ôl i ni gael eu cymeradwyaeth, byddwn yn rhoi contract CGC gyda chymeradwyaeth CPCFf i chi.

Newid y contract

Newidiadau i'r gwaith arfaethedig

Mae'n bwysig i chi gynllunio'r gwaith y bwriadwch ei wneud. Ond os yw rhywbeth annisgwyl yn digwydd, gall fod angen i chi newid eich cynigion ar ôl i'ch contract CGC gael ei gymeradwyo. Dylech anfon manylion y newidiadau yr hoffech eu gwneud ar unwaith, ar y ffurflen Newidiadau (CGC–CPCFf 4), i'r swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol a gymeradwyodd eich contract.

Os yw unrhyw newid yn ymwneud â thir yr ydych chi'n ceisio grant amdano o dan y CPCFf, bydd angen cael cymeradwyaeth y Gwasanaeth Datblygu Gwledig/Adran Amaeth berthnasol hefyd. Hefyd bydd angen i chi lenwi ffurflen CGC–CPCFf 4 i ddweud wrthym am y newidiadau. Byddwn yn hysbysu'r Gwasanaeth Datblygu Gwledig/Adran Amaeth berthnasol ac yn ceisio eu cymeradwyaeth. Rhaid i chi beidio â dechrau gwaith ar unrhyw newid hyd nes i chi gael ein cymeradwyaeth.

Os cymeradwywn eich newid, byddwn yn anfon contract CGC newydd atoch, neu gontract CGC a Datganiadau ac Ymrwymiadau CPCFf, y mae'n rhaid i chi ei lofnodi a'i ddychwelyd i ni. Os yw'r newid yn effeithio ar rai unedau rheoli yn unig, mae'n bosibl yr anfonwn gontract cryno atoch a fydd yn dangos yr unedau rheoli a newidiwyd yn unig.

Rhaid i chi beidio â dechrau unrhyw waith ar y newid hyd nes i ni ei gymeradwyo mewn ysgrifen, neu lofnodi a dychwelyd y contract.

Byddwch cystal â chofio y gall newidiadau mynych fod yn fwrn ar y naill ochr a'r llall ac y gall fod angen ymgynghori ymhellach ag awdurdodau lleol neu gyrff eraill.

Newidiadau mewn perchenogaeth

Y gwerthwr

Os gwerthwch dir sydd mewn contract CGC, rhaid i chi ddweud wrthym o fewn tri mis ar ôl y newid. Dylech hefyd edrych ar delerau ac amodau'r cynllun, yn enwedig os ydym wedi talu grant i chi. Gall eich cyfreithiwr roi cyngor i chi ar sut i sicrhau nad ydych yn atebol am unrhyw beth y mae'r perchennog newydd yn ei wneud yn y coetir. Gallwn roi ffurflen CGC 9, Cytundeb i Drosglwyddo Rhwymedigaethau, i chi sy'n cynnig un ffordd bosibl o ymdrin â hyn. Gallwch gael rhagor o fanylion yn ein taflen *Newidiadau mewn Perchenogaeth Tir gyda Chontract Cynllun Grant Coetir.*

Y prynwr

Os ydych yn prynu neu'n cymryd prydles ar dir sydd mewn contract CGC, yna mae'n bosibl y bydd modd i chi gael grant. Bydd hyn yn dibynnu ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan y perchennog blaenorol ac a oes unrhyw grant yn ddyledus. Bydd yr amgylchiadau'n amrywio o achos i achos, ond bydd y staff yn eich swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol yn gallu esbonio sut y gallech elwa. Rhaid i chi wneud cais i'r CGC er mwyn i ni allu talu'r grant. Os dymunwch ymuno â'r CPCFf a derbyn unrhyw daliadau blynyddol sy'n weddill, yna rhaid i chi lenwi Cais Olynydd (CPCFf 8).

Gellir cael copïau o CGC 9 a CPCFf 8 gan eich swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol.

Talu'r Grant

Pwy a all hawlio grant?

Gallwch hawlio a derbyn y grant eich hun, neu gallwch awdurdodi asiant i hawlio a derbyn y grant ar eich rhan. Pan anfonwch eich contract drafft wedi'i lofnodi, rhaid i chi ddweud wrthym pwy a fydd yn hawlio grant a phwy y dylem ei dalu. Os ydych am newid y cyfarwyddiadau hyn ar ôl llofnodi eich contract, yna rhaid i chi ddweud wrthym mewn ysgrifen. Pan ddychwelwn eich contract wedi'i lofnodi, fe roddwn ffurflen hawlio a nodiadau i chi hefyd.

Awdurdodi a thalu eich hawliad

Yn achos rhai grantiau mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi lenwi ffurflen Hawliad (CGC–CPCFf 3) ar gyfer y rhandaliad neu daliad cyntaf a hynny o fewn blwyddyn ariannol benodol. Cewch ragor o fanylion am y "Flwyddyn Hawlio" yn y Nodiadau. Gall eich Swyddog Coetiroedd roi cyngor pellach i chi.

Cael "Gwahoddiad i Hawlio"

Yn achos grantiau a delir bob blwyddyn, ac ail randaliadau grantiau sefydlu, byddwn yn anfon "Gwahoddiad i Hawlio" atoch ychydig cyn bod y grant yn ddyledus.

Hawliadau am daliadau blynyddol o'r CPCFf

Gallwch hawlio'r pum mlynedd cyntaf o daliadau CPCFf ynghyd â'ch grant sefydlu CGC drwy lenwi tudalen 4 o'r ffurflen hawlio CGC–CPCFf 3. Byddwn yn trosglwyddo'r manylion i'r Gwasanaeth Datblygu Gwledig/Adran Amaeth berthnasol a fydd yn trefnu'r taliad wedi iddynt gymeradwyo'ch hawliad. Gallwch gael ffurflen hawlio ar gyfer y blynyddoedd i ddod gan y Gwasanaeth Datblygu Gwledig/Adran Amaeth berthnasol.

Cadarnhau'r manylion ar eich hawliad - ymweld â'r safle

Pan dderbyniwn eich hawliad, byddwn yn sicrhau yn gyntaf ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom. Os nad ydyw, yna byddwn yn cysylltu â chi o fewn pythefnos. Gall y Swyddog Coetiroedd, neu bobl sydd wedi cael awdurdod dirprwyedig gennym ni, edrych ar yr ardal dan sylw pan dderbynnir hawliadau i sicrhau bod y gwaith yn cwrdd â'r safon. Os bwriadwn ymweld â'ch coetir, byddwn yn dweud wrthych, ond rhaid i ni allu gwneud yr ymweliad ar unrhyw adeg resymol.

Nid oes angen i chi fod yno pan ymwelwn â'r safle, ond os ydych chi'n dymuno bod yn bresennol, byddwn yn ceisio trefnu amser sy'n gyfleus i chi.

Pryd i ddisgwyl eich siec

Os ydym yn fodlon ar y gwaith a wnaed, byddwn yn awdurdodi'r taliad. Byddwn yn cysylltu â chi os na allwn anfon eich siec o fewn 4 wythnos ar ôl derbyn eich hawliad.

Os nad yw'r gwaith yn foddhaol

Os nad ydym yn fodlon ar y gwaith am unrhyw reswm, byddwn yn trafod y broblem gyda chi. Os ydych am geisio cywiro hyn, byddwn yn dweud wrthych beth sydd angen ei wneud a faint o amser a roddwn i chi i wneud y gwaith ychwanegol hwn.

Os nad ydym yn weddol fodlon ar y gwaith a wnaed gennych, gallwn wrthod talu eich grant. Os ydym wedi talu eich grant eisoes, gallwn hawlio unrhyw daliadau a wnaed yn ôl, ynghyd â llog. Os anghytunwch â'n penderfyniad, cewch ofyn am gyflafareddwr i ystyried y mater.

Cwestiynau am eich taliadau grant

Os ydych am ofyn unrhyw gwestiynau am daliad neilltuol, dylech siarad â'r staff yn eich swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol.

Ansawdd y gwasanaeth

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo.

Mae o fudd i chi ac i ni os yw contractau CGC yn cael eu rhoi ac os yw taliadau grant yn cael eu talu yn brydlon. Felly bydd o gymorth i ni os gallwch ateb yn brydlon pan ysgrifennwn atoch neu pan gysylltwn â chi.

Os nad ydych chi'n fodlon

Os nad ydych yn meddwl ein bod ni wedi ymdrin â'ch cais CGC neu hawliad grant yn deg, trafodwch y mater yn uniongyrchol â'r Gwarchodwr priodol. Os na allwch ddod i gytundeb ag ef neu hi, yna dylech gysylltu â'r Cyfarwyddwr: Simon Hewitt yng Nghymru; Paul Hill-Tout yn Lloegr; Bob McIntosh yn yr Alban. Bydd yn cydnabod eich cwyn ac yn rhoi ateb llawn ymhen 4 wythnos.

Os ystyriwch, ar ôl derbyn ateb y Cyfarwyddwr, nad yw eich cwyn wedi cael ei hateb yn foddhaol, cewch ofyn iddi gael ei hystyried gan y Comisiynydd Coedwig priodol.

Penodir y Comisiynwyr Coedwig hyn i Fwrdd y Comisiynwyr o'r tu allan i'r Comisiwn Coedwigaeth. Deuant o amryw o gefndiroedd er mwyn sicrhau cydbwysedd ar y Bwrdd o ran buddiannau ac arbenigedd.

Dylech gysylltu â:

Yr Ysgrifennydd i'r Comisiynwyr
Y Comisiwn Coedwigaeth
231 Corstorphine Road
Caeredin EH12 7AT

...a gofyn i'ch achos gael ei drosglwyddo i'ch Cyfarwyddwr chi, gan egluro pam nad ydych yn fodlon ar yr hyn sydd wedi digwydd. Cydnabyddir eich cais i gael sylw pellach i'ch cwyn a gwneir pob ymdrech i roi ateb llawn i chi ymhen 4 wythnos. Rhoddir gwybod i chi os bydd angen rhagor o amser.

W·O·O·D·L·A·N·D GRANT SCHEME

Grantiau ar gyfer Coetiroedd Newydd

Pwrpas y grantiau

Telir grantiau plannu i annog creu coetiroedd newydd. Telir grantiau ar gyfer plannu newydd mewn 2 randaliad - 70% ar ôl gorffen y plannu a 30% ar ôl 5 mlynedd. Rhaid i chi gynnal yr arwynebedd a blannwyd i'n boddhad rhesymol am o leiaf 10 mlynedd wedi plannu.

Cyfraddau Grant Plannu

cyfradd grant	Conwydd	Llydanddail
Coetiroedd o dan 10 ha	£700 yr ha	£1350 yr ha
Coetiroedd dros 10 ha	£700 yr ha	£1050 yr ha

Ar ôl i chi blannu'r coed, dylech hawlio rhandaliad cyntaf eich grant plannu newydd. Anfonwch ffurflen gais wedi'i llenwi (CGC–CPCFf 3) a map i'ch swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol. Telir ail randaliad eich grant 5 mlynedd ar ôl y taliad cyntaf. Byddwn yn anfon llythyr atoch yn eich gwahodd i'w hawlio ychydig cyn yr amser. Rhaid i chi lofnodi hwn a'i ddychwelyd i ni cyn y gallwn awdurdodi'r taliad.

Grantiau drwy gytundeb

Os gwnewch gais i blannu dros 300 hectar o dir o'r newydd (neu lle bydd eich cais yn ychwanegu at arwynebedd cynlluniau olynol ar yr un eiddo neu eiddo cysylltiedig fel ei fod yn fwy na chyfanswm o 400 hectar), ni fydd y cyfraddau grant sefydlog arferol yn berthnasol. Byddwn yn trafod ac yn cytuno ar y lefel o grant a dderbyniwch. Ni fydd y lefel o grant a dalwn i chi yn fwy na'r gyfradd sefydlog briodol. Gallwch gael rhagor o fanylion am grantiau drwy gytundeb gan eich swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol.

Mewn ardaloedd eraill ceir cronfeydd Her ar gyfer ehangu coetiroedd lle gallwch gyflwyno cynnig cystadleuol i wneud y gwaith.

Mae cynllun tendro mewn grym yn y Goedwig Genedlaethol ar hyn o bryd. Gellir cael Pecyn Ymgeisydd ar wahân gan Warchodaeth Dwyrain Canolbarth Lloegr.

Ceisiadau plannu newydd yn Lloegr

Ymdrinnir â cheisiadau am blannu newydd yn Lloegr yn ôl disgresiwn y Comisiwn Coedwigaeth. Dim ond ceisiadau sy'n cwrdd orau â blaenoriaethau Strategaeth Coedwig Lloegr a gaiff eu cymeradwyo. Yn ogystal â llenwi'r ffurflenni cais rhaid i chi lenwi Ffurflen Sgorio (CGC 2a). Mae'r ffurflen hon yn adlewyrchu rhaglenni a blaenoriaethau'r Strategaeth a'r cyfan y mae'n rhaid i chi ei wneud yw ticio'r blychau sy'n berthnasol i'ch cais. Y mae dau ddyddiad cau ar gyfer ceisiadau plannu newydd bob blwyddyn. Bydd eich swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol yn rhoi'r dyddiadau hyn i chi. Rhaid i chi anfon eich cais i'ch swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol erbyn y naill ddyddiad cau neu'r llall. Os oes gennych waith arall yn eich cais, caiff hyn ei brosesu yn y ffordd arferol. Gellir cael copïau o CGC 2a a gwybodaeth fanylach am y broses hon gan eich swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol.

Y Cynllun Premiwn Coetir Fferm

Pwrpas y Cynllun Premiwm Coetir Fferm (CPCFf) yw gwella'r amgylchedd drwy hybu plannu coetiroedd ar ffermydd, gan wella'r dirwedd, darparu cynefinoedd newydd a chynyddu bioamrywiaeth. Gallwch ddefnyddio ffurflen gais CGC–CPCFf i wneud cais i'r Comisiwn Coedwigaeth i ymuno â'r cynllun hwn. Gweinyddir y cynllun gan y Comisiwn Coedwigaeth a gwneir y taliadau gan y Gwasanaeth Datblygu Gwledig/Adran Amaeth berthnasol. Gellir cael manylion llawn y cynllun yn y llyfryn *Rheolau a Threfniadau'r Cynllun Premiwm Coetir Fferm* a amgaeir gyda *Phecyn yr Ymgeisydd*. Gallwch hefyd gael copi gan eich swyddfa Gwasanaeth Datblygu Gwledig/Adran Amaeth leol.

Rhaid i ni gymeradwyo eich CGC/CPCFf drwy roi contract i chi, wedi'i lofnodi gennym, cyn i chi ddechrau'r gwaith.

Os gwnewch unrhyw blannu neu waith paratoi cyn cael cymeradwyaeth, rhaid i'r Gwasanaeth Datblygu Gwledig/Adran Amaeth wrthod eich cais CPCFf.

Aildyfiant naturiol

Mae grantiau ar gael hefyd ar gyfer creu coetiroedd newydd drwy aildyfiant naturiol. Mae Taliad Dewisol ar gael tuag at y gwaith y mae angen ei wneud i annog aildyfiant a gwneir Taliad Sefydlog ar ôl i goed newydd ddechrau tyfu. Rhoddir manylion pellach yn Adran 3.

Grantiau eraill

Mae'r symbol yn golygu bod manylion pellach am y grantiau ar gael mewn taflenni eraill.

Talwn daliadau atodol i annog plannu coetiroedd mewn ardaloedd blaenoriaethol. Telir y rhain i chi fel rheol gyda rhandaliad cyntaf eich grant plannu a'r Taliad Dewisol neu Daliad Sefydlog ar gyfer aildyfiant naturiol.

Cyfraniad Tir Gwell

cyfradd grant
£600 yr ha

Telir Cyfraniad Tir Gwell am dir amaethyddol sydd naill ai'n "dir âr", "glaswelltir wedi'i wella" neu "dir dan gnwd". Gall staff y swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol egluro i chi sut yr aseswn a yw tir yn bodloni ein diffiniad o dir gwell.

Telir Cyfraniad Tir Gwell fel lwmp-swm gyda rhandaliad cyntaf y grant sefydlu ar gyfer plannu newydd neu'r Taliad Sefydlog ar gyfer aildyfiant naturiol.

Cyfraniad Coetir Cymunedol

cyfradd grant
£950 yr ha

Mae Cyfraniad Coetir Cymunedol ar gael i annog pobl i greu coetiroedd newydd ger trefi a dinasoedd y gall y cyhoedd eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau hamdden anffurfiol.

Rhaid i chi gynllunio'r coetir yn unol â'r egwyddorion yn ein canllawiau.

Canllawiau perthnasol yw: *Community Woodland Design Guidelines, Forest Recreation Guidelines* a Chanllaw Arfer Coedwigaeth Rhif 10 *"Involving Communities in Forestry"*.

Bydd gofyn i chi esbonio'n llawn sut y bwriadwch gynnwys y gymuned leol yn eich cynllun a rhaid i chi roi manylion eich cynlluniau ar gyfer darparu

mynediad i'r cyhoedd. Mae ein taflen Walkers Welcome yn egluro'r hyn a ddisgwyliwn. Ni allwn dalu'r cyfraniad oni chaniatewch fynediad di-dâl i'r cyhoedd ar droed. Os defnyddiwch ein harwyddion Croeso i Gerddwyr mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi bod y mynediad hwn ar gael ar ein gwefan **www.forestry.gov.uk**.

Bydd y cyfraniad yn cael ei dalu fel rheol fel lwmp-swm a bydd rhandaliad cyntaf y grant sefydlu ar gyfer plannu newydd. Yn achos ailddyfiant naturiol, byddwn yn ei dalu gyda'r Taliad Sefydlog a wneir ar ôl i ddigon o goed ddechrau tyfu. Gallwn beidio â'i dalu hyd yn oed os yw'r plannu wedi'i wneud, hyd nes i chi gwblhau'r gwaith y mae angen ei wneud i ddarparu ar gyfer mwynhad cyhoeddus o'r coetir.

Premiwm Coedwig Gymunedol

cyfradd grant
£600 yr ha

Mae'r taliad atodol hwn yn ysgogiad pellach i blannu coetiroedd newydd mewn ardaloedd a dargedwyd yn arbennig. Gall eich swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol ddweud wrthych a yw'r Premiwm Coedwig Gymunedol ar gael yn eu hardal hwy ac, os yw ef, gallant roi taflen eglurhaol i chi.

Grantiau eraill ar gyfer plannu newydd

Prysgoed cylchdro byr

cyfradd grant
Neilldir
£400 yr ha
Tir arall
£600 yr ha

Byddwn yn talu am blannu poplys a helyg ar safleoedd addas lle caiff y rhain eu gweithio ar gylchdro byr. Rhaid i'r plannu gwrdd â'n safonau amgylcheddol a rhaid i chi gadw at delerau'r contract am 5 mlynedd ar ôl i'r grant gael ei dalu.

Rhaid i chi ddweud wrthym os bydd y tir yn cael ei gyfrif fel neilldir anghylchdro o dan y Cynllun Taliadau Arwynebedd Tir r.

Telir y grant hwn yn llawn ar ôl i'r tir gael ei blannu. Nid oes unrhyw daliadau atodol ar gael ar gyfer prysgoed cylchdro byr. Nid yw'n gymwys ar gyfer y Cynllun Premiwm Coetir Fferm.

Neilldir

Os gwnaethoch eich cais CPCFf ar neu ar ôl y 1af o Orffennaf 1995, gall tir sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun Taliadau Arwynebedd Tir r ac sy'n cael ei gynnwys yn y CPCFf gyfrif tuag at eich rhwymedigaethau neilldir. Ceir y manylion yn y llyfryn *Rheolau a Threfniadau'r Cynllun Premiwm Coetir Fferm.*

Cynllun Tendro Coedwig Genedlaethol/ Premiwm Coedwig Genedlaethol

Ysgogiad i greu coetiroedd yn y Goedwig Genedlaethol yw'r Cynllun Tendro. Fe'i rhedir gan Gwmni'r Goedwig Genedlaethol mewn partneriaeth â'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r Cynllun ar gael mewn rhannau o Swydd Derby, Swydd Gaerlŵr a Swydd Stafford. Gall ymgeiswyr wneud cynnig am yr arian sydd ei angen arnynt i wneud y gwaith. Gellir cael Pecyn Ymgeisydd ar wahân gan Gwmni'r Goedwig Genedlaethol neu gan y Comisiwn Coedwigaeth, Gwarchodaeth Dwyrain Canolbarth Lloegr.

Taliad arall sydd ar gael yw'r Premiwm Coedwig Genedlaethol. Pwrpas hwn yw rhoi ysgogiad ychwanegol i blannu coetiroedd newydd yn y Goedwig Genedlaethol. Byddwch cystal â sylwi na allwch hawlio'r premiwm ar gyfer arwynebeddau y ceisir taliadau amdanynt o dan y Cynllun Tendro Coedwig Genedlaethol.

Gofynion ar gyfer grantiau ar gyfer coetiroedd newydd

Nifer y coed yr hectar a lle rhyngddynt

I dderbyn grant plannu a thaliadau atodol ar y gyfradd lawn, byddwn fel rheol yn disgwyl i chi sefydlu o leiaf 2250 o goed yr hectar. Yn achos coed llydanddail, gall dwysedd o 1100 o goed yr hectar fod yn dderbyniol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- **ar gyfer plannu ar raddfa fach. Byddai hyn yn berthnasol fel rheol i goetiroedd llydanddail unigol o lai na 3 hectar, lle nad oes llawer o botensial ar gyfer cynhyrchu coedwydd;**
- **ar gyfer plannu coed llydanddail lle ffurfiant yr elfen fwynderol mewn cynlluniau plannu lle plennir conwydd yn bennaf;**
- **ar gyfer coetiroedd brodorol newydd mewn cynefinoedd lled-naturiol priodol neu mewn ardaloedd ger coetiroedd lled-naturiol sy'n bod eisoes. Rhaid i chi ddilyn ein cyngor ar greu coetiroedd naturiol newydd. Rhoddir rhagor o wybodaeth ym Mwletin Rhif 112 y Comisiwn Coedwigaeth, *Creating New Native Woodlands*.**

Os ydym wedi cytuno i ganiatáu llai na 2250 o goed sefydledig yr hectar, byddwn yn cytuno hefyd ar leoliad y coed a'r nifer lleiaf a ddisgwyliwn er mwyn talu grant plannu ac unrhyw daliadau atodol.

Poplys

Telir grantiau plannu llawn ar gyfer poplys ar yr amod bod o leiaf 1100 o goed yr hectar yn cael eu sefydlu. Gall y rhain gael eu teneuo cyn blwyddyn 10 os oes angen. Os sefydlir llai o goed na hyn, telir y grant plannu pro-rata. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda mwy o le rhwng y coed, bydd unrhyw daliadau atodol yn cael eu talu ar y gyfradd lawn cyhyd ag y bodlonir yr amodau sydd ynghlwm wrth y taliadau atodol hyn.

Amaeth-coedwigaeth

Byddwn yn talu grantiau ar gyfer amaeth-coedwigaeth, sef cymysgedd o goed ac amaethyddiaeth ar yr un darn o dir. Os ydych chi'n bwriadu plannu'r coed gyda phellter da rhyngddynt, bydd y grant a'r taliadau atodol yn cael eu lleihau pro-rata ar sail 1100 o goed yr hectar. Nid yw amaeth-coedwigaeth yn gymwys ar gyfer y Cynllun Premiwm Coetir Fferm.

Dewis o brif rywogaethau

Rhaid i'r rhywogaethau y bwriedir eu plannu fod yn addas i'r safle a chwrdd â'ch nodau rheoli. Lle mae cadwraeth natur yn nod pwysig, bydd hyn fel rheol yn golygu y dylech ddefnyddio rhywogaethau sydd, neu a fu, yn frodorol i'r safle.

Tir agored

Mae tir agored yn ddymunol mewn coetiroedd am resymau rheoli ac amgylcheddol. Byddwn yn cytuno ar faint o dir agored sydd ei angen a ble y dylai fod. Gallwn dalu grant amdano, am hyd at 20% o'r arwynebedd cyfan sy'n cael grant.

e.e. Os yw'r arwynebedd a amgaeir gan ffin eich cais yn 10 hectar ac os yw grant i gael ei dalu am yr arwynebedd cyfan, yna gellir gadael 2 hectar fel tir agored a rhaid plannu 8 hectar.

Prysgwydd prennaidd

Gallwn dalu grant i chi (am hyd at 10% o'r arwynebedd cyfan sy'n cael grant) os ydych am blannu prysgwydd prennaidd tal megis cyll, breuwydd neu feryw. Telir y grant ar yr amod bod y coed yn addas ar gyfer coetir ac ecoleg yr ardal.

Prysgoed

Er mwyn annog prysgoedio (coedlannu) traddodiadol, byddwn yn talu grant plannu ac unrhyw daliadau atodol ar gyfer plannu prysgoed newydd. Byddem fel rheol am i chi ddefnyddio rhywogaethau sy'n draddodiadol yn yr ardal. Nid yw prysgoed traddodiadol yn gymwys ar gyfer y CPCFf ond mewn amgylchiadau arbennig.

Hadu uniongyrchol

Os ydych am sefydlu coetir newydd drwy hadu uniongyrchol, byddwn yn ei drin fel aildyfiant naturiol. Byddwn yn talu Cyfraniad Tir Gwell a Phremiwm Coedwig Gymunedol gyda'r Taliad Dewisol.

Coed Nadolig

Ni fydd plannu coed Nadolig ar ei ben ei hun yn gymwys ar gyfer grantiau. Fodd bynnag, ni fydd plannu coed Nadolig ymysg rhywogaethau eraill yn golygu na ellir cael grant, cyhyd ag y bo hyn yn gydnaws â rheolaeth goedwrol ac amgylcheddol y coetir.

WOODLAND GRANT SCHEME
WGS

Grantiau ar gyfer Coetiroedd sy'n Bod

Pwrpas y grantiau

Telir grantiau am ailstocio coetiroedd, boed drwy blannu neu aildyfiant, ar ôl torri coed neu ar ôl i goed gael eu chwythu i lawr. Telir grantiau hefyd am reoli a gwella coetiroedd ac am gau da byw allan o rai coetiroedd.

Cyfraddau grantiau ailstocio

Telir grantiau ailstocio yn llawn ar ôl cwblhau'r plannu. Rhaid i chi gynnal yr ardal a ailstociwyd i'n boddhad rhesymol am o leiaf 10 mlynedd wedi plannu.

cyfradd grant	
Conwydd	£325 yr ha
Coed Llydanddail	£525 yr ha

I dderbyn grant ailstocio ar y gyfradd lawn, byddwn fel rheol yn disgwyl i chi blannu o leiaf 2250 o gonwydd neu o leiaf 1100 o goed llydanddail yr hectar.

Ar ôl i chi blannu'r coed, dylech hawlio'r grant. I wneud hyn rhaid i chi anfon ffurflen hawlio wedi'i llenwi (CGC–CPCFf 3) i'ch swyddfa Comisiwn Coedwigaeth leol.

Grantiau aildyfiant naturiol

Gellir defnyddio aildyfiant naturiol yn hytrach na phlannu i ailstocio rhannau o goetiroedd sy'n bod neu i greu coetiroedd newydd drwy ehangu coetiroedd sy'n bod. Lle mae aildyfiant naturiol yn ymarferol a phriodol ni fyddwn fel rheol yn caniatáu cynigion ar gyfer plannu. Os nad yw aildyfiant naturiol yn briodol, ni fyddwn yn rhoi grant tuag ato.

Mae gan y grant aildyfiant naturiol ddwy elfen:

- **Taliad Dewisol o 50% o gostau'r gwaith y mae angen ei wneud i annog aildyfiant naturiol - rhaid i ni gytuno ar y costau;**
- **Taliad Sefydlog sy'n gyfwerth â'r gyfradd ar gyfer ailstocio (gweler uchod).**

Byddwn yn cytuno ar y gwaith y mae angen ei wneud i gael y Taliad Dewisol ac ar faint y taliad yn eich contract CGC. Enghreifftiau yw ffensio a pharatoi'r ddaear. Ar ôl i chi gwblhau'r gwaith a gymeradwywyd, dylech ddefnyddio ffurflen CGC–CPCFf 3 i hawlio'r Taliad Dewisol.

Os na cheir aildyfiant naturiol ar ôl i ni wneud y Taliad Dewisol cyntaf, mae'n bosibl y byddwn yn ystyried cais gennych am Daliad Dewisol arall os ydym o'r farn y bydd y gwaith ychwanegol yn llwyddiannus.

Os defnyddir aildyfiant naturiol i fodloni amod ailstocio mewn trwydded torri coed, ac os yw'r aildyfiant yn methu, rhaid i chi barhau i gydymffurfio â'r amod ailstocio. Gallwn ofyn i chi ailblannu.

Gellir hawlio'r Taliad Sefydlog am aildyfiant naturiol ar ôl i ailstocio digonol gael ei gyflawni. Dylai'r coed fod oddeutu 30-45cm o daldra, yn iach ac wedi ymsefydlu'n dda. Mae angen 1100 o goed yr hectar o leiaf ond bydd angen rhagor fel rheol. Yn achos coetiroedd brodorol, gall dosbarthiad clystyrog fod

yn well. Pan fydd ailstocio digonol wedi'i gyflawni, dylech ddefnyddio ffurflen CGC–CPCFf 3 i hawlio'r Taliad Sefydlog. Byddwn yn cytuno ar amser rhesymol i'r coed ymsefydlu. Os oes llai o goed nag a gynlluniwyd erbyn yr adeg y cytunwyd arno, dylech drafod y sefyllfa â'r Swyddog Coetiroedd.

Os nad oes angen gwneud unrhyw waith i annog aildyfiant, ni chewch Daliad Dewisol ond mae'n bosibl y cewch hawlio'r Taliad Sefydlog.

Os oes peth aildyfiant naturiol eisoes, ond os oes angen gwneud rhagor o waith i sicrhau ei fod yn datblygu'n goetir sefydledig, gall fod yn gymwys ar gyfer Taliad Dewisol i helpu gyda'r gwaith angenrheidiol.

Grant Rheoli Blynyddol

cyfradd grant
y flwyddyn
£35 yr ha

Pwrpas y Grant Rheoli Blynyddol yw cyfrannu at gost y gwaith o gynnal a gwella coetiroedd.

Mathau o waith sy'n gymwys

I fod yn gymwys ar gyfer Grant Rheoli Blynyddol, rhaid i'r gwaith sydd gennych mewn golwg wneud un neu ragor o'r canlynol:

- **diogelu neu gynyddu gwerth amgylcheddol arbennig presennol coetir.**

Rhaid i'r coetiroedd fod o werth amgylcheddol arbennig o safbwynt cadwraeth natur neu dirwedd. Rhaid i'r gwaith a wnewch gryfhau gwerth arbennig y safle;

- **gwella coetiroedd sydd o dan y safonau amgylcheddol presennol.**

Gallwch fod yn gymwys ar gyfer Grant Rheoli Blynyddol os oes angen gwneud gwaith i gwrdd â'r safonau yn ein canllawiau presennol, er enghraifft, torri conwydd yn ôl o ochrau nentydd neu wella siâp y coetir yn y dirwedd;

- **creu, cynnal neu wella mynediad cyhoeddus i goetiroedd.**

Gallwn dalu Grant Rheoli Blynyddol ar gyfer mynediad i'r cyhoedd ar yr amod bod y cyhoedd yn gwneud digon o ddefnydd o'r coetir i gyfiawnhau talu'r grant. Byddwn yn pwyso a mesur y budd i'r cyhoedd drwy edrych ar faint o bobl a fyddai'n defnyddio'r coetir. Gallwn ofyn i chi roi amcangyfrif o'r defnydd hwn.

Gallwch ennill peth incwm drwy godi tâl am barcio, taflenni neu drwyddedau. Ond ni fyddech yn cael grant pe baem ni'n penderfynu bod y cyfleusterau yn fenter fasnachol.

Mae ein taflen Walkers Welcome yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y gallai fod angen i chi ei ddarparu.

Os cafodd y coetir ei sefydlu gyda chymorth ein Cyfraniad Coetir Cymunedol, ni fyddwch fel rheol yn gymwys ar gyfer Grant Rheoli Blynyddol hyd ddiwedd cyfnod y cynllun cyntaf;

- **sicrhau gwaith wedi'i gyllido gan Grant Gwella Coetir.**

Cost y gwaith

Talwn Grant Rheoli Blynyddol i helpu gyda chost gwaith rheoli angenrheidiol.

Pan fyddwn yn penderfynu a allwn dalu'r grant, fe gymerwn i ystyriaeth gost debygol y gwaith, gan gynnwys unrhyw gynllunio a goruchwylio cysylltiedig. Os yw'r costau disgwyliedig yn llai na'r grant mae'n bosibl na fyddwch chi'n gymwys. Fel rheol ni fydd angen i chi ddarparu costau gwirioneddol a byddwn yn seilio ein hasesiad ar ein profiad.

Talu Grant Rheoli Blynyddol

Os yw'r arwynebedd a gymeradwywyd yn y contract yn llai na 5 hectar, byddwn yn talu'r cyfan o'r Grant Rheoli Blynyddol fel lwmp-swm yn **ail flwyddyn** eich contract, ar yr amod bod y rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i wneud.

Os yw'r arwynebedd a gymeradwywyd yn y contract yn fwy na 5 hectar, byddwn yn gwneud pum taliad o grant rheoli i chi. Gwneir y taliad cyntaf ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf a phedwar taliad blynyddol wedi hynny.

Anfonir *Gwahoddiad i Hawlio* grant rheoli atoch (gan gynnwys taliadau lwmp-swm). Rhaid i chi lofnodi a dychwelyd y ffurflen i ni fel y gallwn awdurdodi'r taliad.

Mae'r dyddiad y talwn eich taliad grant rheoli yn dibynnu ar ba bryd y cymeradwywyd eich contract CGC, e.e. os cymeradwywyd eich contract ym mis Gorffennaf 1999, byddwn yn anfon eich Gwahoddiad i Hawlio mewn pryd i wneud eich taliad cyntaf ym mis Awst 2000. Anfonir Gwahoddiadau i Hawlio atoch yr un pryd bob blwyddyn hyd nes i chi dderbyn pum taliad o dan eich contract CGC.

Ni fydd eich grant rheoli yn cael ei adnewyddu'n awtomatig ar ôl i'r Cyfnod Cymeradwyaeth (cyfeiriwch at Deler 4 yn y Telerau ac Amodau ar gyfer y CGC), pryd y mae'n rhaid i chi wneud y gwaith, ddod i ben. Bydd yn rhaid i chi wneud cais arall os ydych am gael grant ar gyfer rhagor o waith. Dylech wneud hyn o leiaf 6 mis cyn diwedd y Cyfnod Cymeradwyaeth.

Grant Gwella Coetir

Prosiect 1 – Darparu cyfleusterau hamdden i'r cyhoedd mewn coetiroedd

Telir grant am waith a fydd yn helpu i hybu gweithgareddau hamdden anffurfiol i'r cyhoedd mewn coetiroedd sy'n bod. Gellir talu grant i agor coetiroedd at bwrpas gweithgareddau hamdden neu i wella ardaloedd a ddefnyddir eisoes gan y cyhoedd.

Prosiect 2 – Coetiroedd heb reolaeth ddigonol

Telir grant am waith a fydd yn helpu i ddod â choetiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli'n ddigonol neu sydd o werth masnachol isel o dan reolaeth eto.

Prosiect 3 – Bioamrywiaeth mewn coetiroedd

Telir grant am waith i helpu perchenogion coetiroedd i reoli eu coetiroedd mewn ffyrdd a fydd yn gweithredu'r agweddau coedwigaeth ar "Biodiversity, The UK Action Plan".

Mae'r tri phrosiect yn cynnig grantiau ar ffurf taliadau dewisol wedi'u seilio ar 50% o gost y gwaith. Rhaid cytuno ar y gost.

Mae taflenni ar wahân ar gael ar gyfer pob un o'r prif brosiectau hyn sy'n disgrifio pa waith sy'n gymwys a sut i wneud cais.

Llyfryddiaeth

Mae'r cyhoeddiadau hyn ar gael gan Swyddfeydd Gwarchodaeth y Comisiwn Coedwigaeth (gweler *Cyfeiriadur Gwarchodaethau* y Comisiwn Coedwigaeth) oni roddir cyfeiriad arall. Mae copi o'n catalog ar ein gwefan yn **www.forestry.gov.uk**.

Taflenni CGC–CPCFf

Enw'r Cyhoeddiad	Sylwadau	
Pecyn yr Ymgeisydd *(mae hwn ar gael hefyd ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth)*	Yn cynnwys:	Llyfryn CGC Rheolau a Threfniadau CPCFf Amgylchedd y Goedwig Nodiadau CGC–CPCFf 1 CGC–CPCFf 2 CGC 2a
Cyflwyno Coetiroedd Fferm		
CGC–CPCFf 3 – Hawliad		
CGC–CPCFf – Newidiadau		
Nodiadau ar gyfer CGC–CPCFf 3 a 4		
CGC 6 – Costiadau a Gwybodaeth Ychwanegol (WIG)		
CGC 6a – Ffurflen Gynnig (WIG)	Wrth geisio arian o gronfa her	
CPCFf 7 – Cydsyniad Landlord		
CPCFf 8 – Cais Olynydd		
CGC – Cytundeb i Drosglwyddo Rhwymedigaethau		
Newidiadau mewn Perchenogaeth Tir gyda Chontract Cynllun Grant Coetir		
Torri Coed – Cael Caniatâd		
Strategaeth Coedwigaeth Lloegr	Ar gael gan:	Comisiwn Coedwigaeth Lloegr *Gweler y 'Cyfeiriadur Gwarchodaethau'*
Strategaeth Coedwigaeth Cymru	Ar gael gan:	Comisiwn Coedwigaeth Cymru *Gweler y 'Cyfeiriadur Gwarchodaethau'*

Taflenni Grant Eraill

Enw'r Cyhoeddiad	Sylwadau
Cyfraniad Tir Gwell	
Cyfraniad Coetir Cymunedol	
Croeso i Gerddwyr	
Premiwm Coedwig Cymunedol	
Coedlan Cylchdro Byr	
Grantiau Coetiroedd Brodorol	
Grant Gwella Coetir Prosiect 1 – Darparu Hamdden Gyhoeddus yn Coetiroedd	
Grant Gwella Coetir Prosiect 2 – Coetiroedd a Reolir yn Annigonol	
Grant Gwella Coetir Prosiect 3 – Bio-amrywiaeth Coetir	

Canllawiau

Enw'r Cyhoeddiad	Sylwadau	
Community Woodland Design Guidelines	£14.00	Ar gael gan Gyhoeddiadau'r CC – gweler gyferbyn
Forest Recreation Guidelines	£7.00	Ar gael gan Gyhoeddiadau'r CC
Canllaw Arfer Coedwigaeth Rhif 10 "Involving Communities in Forestry"	Di-dâl	Ar gael gan Gyhoeddiadau'r CC
Bwletin Comisiwn Coedwigaeth Rhif 112 "Creating New Native Woodlands"	£9.95	Ar gael gan Gyhoeddiadau'r CC
National Forest Tender Scheme and National Forest Premium	Y ddau ar gael gan: a	Forestry Commission, East Midlands Conservancy, Station Road, East Leake Nr Loughborough LE12 6LQ The National Forest Company Enterprise Glade, Bath Lane Moira, Swadlincote Derbyshire DE12 6BD

Cyhoeddiadau'r Comisiwn Coedwigaeth

Gallwch gysylltu â Chyhoeddiadau'r Comisiwn Coedwigaeth drwy:

Ffôn: 0870 121 4180
Ffacs: 0870 121 4181
E-bost: forestry@twoten.press.net
Post: Forestry Commission Publications
PO Box 25, Wetherby
West Yorkshire
LS23 7EW

Cyfeiriadau defnyddiol

Cwmni'r Goedwig Genedlaethol/
The National Forest Company
Enterprise Glade
Bath Lane
Moira, Swadlincote
Swydd Derby
DE12 6DB
Ffôn: 01283 551211
Ffacs: 01283 552844

Cymdeithas y Coedwigwyr Proffesiynol/
Association of Professional Foresters
7-9 West Street
Belford
Northumberland
NE70 7QA
Ffôn: 01668 213937
Ffacs: 01668 213555

Y Gymdeithas Contractio Coedwigaeth Cyf/
Forestry Contracting Association Ltd
Dalfling
Blairdaff, Inverurie
Swydd Aberdeen
AB51 5LA
Ffôn: 01467 651368
Ffacs: 01467 651595

Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig/
Institute of Chartered Foresters
7a St Colme Street
Caeredin
EH3 6AA
Ffôn: 0131 225 2705
Ffacs: 0131 220 6128

Y Gymdeithas Coetiredd Bach Genedlaethol/
National Small Woods Association
The Cabins
Mailehurst Estate, Minsterby
Swydd Amwythig
SY5 0EQ
Ffôn: 01743 792644
Ffacs: 01743 792655

Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig/
Royal Institution of Chartered Surveyors
12 Great George Street
Llundain
SW1P 3AD
Ffôn: 0171 222 7000
Ffacs: 0171 222 9430

Cymdeithas y Tyfwyr Coed/
Timber Growers Association
8 Dublin Street Lane South
Caeredin
EH1 3PX
Ffôn: 0131 538 7111
Ffacs: 0131 538 7222

Cyfeiriadau a rhifau ffôn eich cysylltiadau eich hun

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Ffôn: Ffacs:

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Ffôn: Ffacs:

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Ffôn: Ffacs:

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Ffôn: Ffacs:

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Ffôn: Ffacs:

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Ffôn: Ffacs:

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Ffôn: Ffacs:

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

FCCS412

Cyhoeddwyd gan Grantiau a Thrwyddedau, Y Comisiwn Coedwigaeth, Caeredin EH12 7AT.
I45/21(G-WGS)(GL)-MDA-Nov 03 © Hawlfraint y Goron.